**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-539
Ein cyf/Our ref EH/02769/15

William Powell AC
Cadeirydd – y pwyllgor deisebau

committeebusiness@cymru.gsi.gov.uk

30 Mehefin 2015

Annwyl William,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 18 Mehefin ynghylch y Gyfnewidfa Lo, Caerdydd.

Mae ein hymgynghorydd wedi cynnal astudiaeth ddichonoldeb ddrafft ar y cyd â swyddogion Is-adran yr Economi, Gwyddoniaeth a thrafnidiaeth a CADW. Disgwylir y bydd yr astudiaeth wedi'i chwblhau'n fuan iawn a byddaf yn hapus i rannu'r adroddiad â chi bryd hynny.

Dewiswyd y cwmni i gynnal yr astudiaeth ddechreuol hon oddi ar fframwaith ymgynghorwyr a sefydlwyd gan fy adran; maen nhw'n gallu cynnig cyngor cynhwysfawr a strategol ym maes tirfesur adeiladau a rheoli costau yn ogystal â phrofiad o adeiladau hanesyddol. Mae swyddogion CADW wedi bod yn cymryd rhan lawn yn y prosiect hyd yn hyn hefyd.

Rwy'n gobeithio gallu ysgrifennu atoch eto yn fuan iawn ynghylch yr adroddiad dichonoldeb, pan fydd wedi'i gwblhau.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*